

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 209(2), (3)(a) a (6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2021 Rhif (Cy. )**

**CYDRADDOLDEB, CYMRU**

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb  
2010 (Awdurdodau sy'n  
ddarostyngedig i ddyletswydd  
ynghylch Anghydraddoldebau  
Economaidd-gymdeithasol)  
(Cymru) 2021**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf") er mwyn ychwanegu awdurdodau at y rhestr o awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd sector cyhoeddus ynghylch anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol o dan adran 1(1) o'r Ddeddf honno.

Mae'r rhestr o awdurdodau Cymreig a bennir yn adran 1(3A) o'r Ddeddf yn awdurdodau sy'n bodloni'r prawf yn adran 2(6) o'r Ddeddf, hynny yw, maent yn awdurdodau Cymreig datganoledig (o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), y mae eu swyddogaethau'n cyfateb i swyddogaethau awdurdod a bennir am y tro yn is-adran (3) o adran 1 neu y cyfeirir ato yn is-adran (4) o'r adran honno, neu y mae eu swyddogaethau'n debyg i swyddogaethau awdurdod o'r fath.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 209(2), (3)(a) a (6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2021 Rhif. (Cy. )**

**CYDRADDOLDEB, CYMRU**

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb  
2010 (Awdurdodau sy'n  
ddarostyngedig i ddyletswydd  
ynghylch Anghydraddoldebau  
Economaid-gymdeithasol)  
(Cymru) 2021**

*Gwnaed*

\*\*\*

*Yn dod i rym*

*30 Mawrth 2021*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 2(4)(a) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(1).

Yn unol ag adran 209(2), (3)(a) a (6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

---

(1) 2010 p. 15. Mae adran 2(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio adran 1 o Ddeddf 2010 er mwyn, ymhlith pethau eraill, ychwanegu awdurdod perthnasol at yr awdurdodau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 1. Mae "relevant authority" wedi ei ddiffinio yn adran 2(6). Diwygiwyd adran 2(6) gan baragraff 83(1) a (2) o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ("Deddf 2017"). Hepporwyd is-adrannau (7), (9) a (10) o adran 2 gan adran 45(3) o Ddeddf 2017 a hepporwyd paragraff (b) o is-adran (11) gan baragraff 83(3) o Atodlen 6 i Ddeddf 2017. Mae diwygiadau eraill i adran 2 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

## Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021 a deuant i rym ar 30 Mawrth 2021.

## Diwygio adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010

2. Yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y ddyletswydd sector cyhoeddus ynghylch anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol), ar ôl is-adran (3)(1), mewnosoder—

“(3A) This section also applies to the following authorities—

- (a) the Welsh Ministers;
- (b) a county council or county borough council in Wales;
- (c) a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006<sup>(2)</sup>;
- (d) an NHS Trust established under section 18 of the National Health Service (Wales) Act 2006;
- (e) a Special Health Authority established under section 22<sup>(3)</sup> of the National Health Service (Wales) Act 2006 other than a cross-border Special Health Authority (within the meaning of section 8A(5)<sup>(4)</sup> of the National Health Service (Wales) Act 2006);
- (f) a fire and rescue authority constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004, or a scheme to which section 4 of that Act applies, for an area in Wales;
- (g) a National Park authority established by an order under section 63 of the Environment Act 1995<sup>(5)</sup> for an area in Wales;
- (h) the Welsh Revenue Authority or Awdurdod Cyllid Cymru.”

---

(1) Hefgorwyd paragraffau (h) ac (i) o adran 1(3) gan baragraff 181(a) a (b) o Atodlen 5 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7) (“Deddf 2012”). Diddymwyd adran 1(3)(j) gan baragraff 1 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 (p. 24). Mae diwygiadau eraill i adran 1 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) 2006 p. 42.

(3) Hefgorwyd adran 22(6) gan baragraff 18 o Atodlen 21 i Ddeddf 2012.

(4) Mewnosodwyd adran 8A gan baragraff 14 o Atodlen 21 i Ddeddf 2012.

(5) 1995 p. 25.

*Enw*

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, o dan awdurdod

Gweinidogion Cymru

Dyddiad